

# Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021

## Cwestiynau Cyffredin i Nanis (darparwyr gofal plant yn y cartref)

### Os wyf yn gofalu am blant yn un o'u cartrefi, a oes rhaid i mi gael fy nghymeradwyo?

Nac oes, cynllun gwirfoddol yw hwn ond bydd yn eich galluogi i ddangos i'ch cyflogwyr eich bod wedi bodloni meini prawf penodol a bydd hyn yn ei alluogi i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU os bydd yn gymwys, sy'n golygu y dylech fod yn fwy cyflogadwy.

### Beth yw'r meini prawf ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021?

Y meini prawf i ddarparwr gofal plant yn y cartref (nani) gael ei gymeradwyo o dan y cynllun hwn yw bod yn rhaid i'r ymgeisydd:

- Fod dros 18 oed
- Bod â chymhwyster sydd ar restr Gofal Cymdeithasol Cymru o [Gymwysterau Gofynnol](#) gweithio yn Sector y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf bediatrig gyfredol
- Meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Meddu ar wiriad manylach cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Peidio â bod wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant na chael ei ystyried yn anaddas i weithio gyda phlant

Mae'r cymhwyster gofynnol wedi'i nodi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru ar y Rhestr o [Gymwysterau Gofynnol i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru](#)

Er nad yw'n ofyniad ar hyn o bryd, argymhellir y dylai nanis ymgyfarwyddo â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ac, yn arbennig, allu adnabod arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod ymhlith plant a gwybod sut i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am bryderon. Mae'n bosibl bod sylw wedi'i roi i'r maes hwn fel rhan o'ch cymhwyster neu, os nad ymdriniwyd ag ef, gallech siarad â'ch awdurdod lleol ynghylch dilyn un o'i gyrsiau diogelu neu fynd i wefan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) i weld beth sydd ar gael.

## **Beth os nad oes gennyf un o'r cymwysterau a restrir uchod?**

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfleoedd hyfforddi ac unrhyw gymorth ariannol lleol a all fod ar gael i gwblhau cymwysterau gan y sefydliadau hyn:

- [Gofal Cymdeithasol Cymru](#)
- [Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol](#)
- [PACEY Cymru](#)

## **A oes angen i mi gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os wyf eisoes wedi cael fy nghymeradwyo ac nad yw'n bryd i mi ei hadnewyddu eto?**

Nac oes, bydd angen i chi sicrhau bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus pan fyddwch yn cyflwyno eich cais i adnewyddu.

## **Os byddaf yn gwneud cais am y tro cyntaf, a fydd angen i mi gyflwyno fy yswiriant atebolrwydd cyhoeddus fel rhan o'm cais?**

Na fydd, ond bydd angen i ni ei weld cyn i ni allu cymeradwyo eich cais.

## **Faint y bydd yn ei gostio i mi gael fy nghymeradwyo?**

Cost cymeradwyo'r Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yw £55. Os bydd angen tystysgrif DBS ar ymgeiswyr hefyd, gellir gwneud cais am un drwy Vibrant Nation, sef darparwr ar-lein AGC, am £54.40. Mae cymeradwyaeth yn para am 12 mis ac, felly, bydd angen i chi gyflwyno cais newydd am gymeradwyaeth bob blwyddyn. Mae tystysgrif gwiriad manylach y DBS yn ddilys am 3 blynedd ac, felly, y ffi am wneud cais newydd am dystysgrif fydd £55 bob blwyddyn ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn. Dylech gyflwyno eich cais i adnewyddu o leiaf 42 diwrnod i'ch cymeradwyaeth ddod i ben,

Os byddwch yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r DBS, bydd costau gwneud cais ac adnewyddu'r Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yn aros ar £55 ar yr amod eich bod yn adnewyddu eich gwiriad gan y DBS gyda'r Gwasanaeth Diweddarau bob blwyddyn.

## **Beth yw gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?**

Fel rhan o'r broses gymeradwyo, mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud cais am gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriad y DBS). Mae gwiriad DBS yn ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a ddelir gan yr heddlu ac adrannau'r llywodraeth a gall gael ei ddefnyddio gan gyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Darperir gwiriadau gan y DBS, sy'n un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref. Mae angen gwiriad y DBS ar gyfer y rhai sy'n gofalu am blant neu oedolion sy'n agored i niwed, sy'n eu hyfforddi neu'n eu goruchwylio neu sy'n gyfrifol amdanynt ar eu pen eu hunain, a hynny'n rheolaidd, ac mae'n cynnwys manylion pob euogfarn sydd wedi'i chofnodi, gan gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu, ynghyd â manylion unrhyw rhybuddiadau, ceryddon

neu rybuddion. Mae hefyd yn cynnwys lefel ychwanegol o wirio yn erbyn cofnodion yr heddlu lleol, yn ogystal â gwiriadau yn erbyn rhestrau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) ac adrannau'r Llywodraeth o'r rhai sydd wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag gweithio gyda phlant.

### **Beth yw manteision tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r DBS?**

Am ffi flynyddol, gallwch ymuno â [Gwasanaeth Diweddarau'r DBS](#); bydd hyn yn eich galluogi i sicrhau bod eich Tystysgrif DBS yn gyfredol a mynd â hi gyda chi o swydd i swydd ar yr amod ei bod o fewn yr un ardal gweithlu lle mae'n un math a lefel o wiriad yn ofynnol (Safonol neu Fanylach).

### **Beth os byddaf wedi cofrestru eisoes â Gwasanaeth Diweddarau'r DBS?**

Os oes gennych dystysgrif gwiriad manylach gan y DBS ar gyfer yr [ardal weithlu](#) gywir rydych yn gwneud cais ar ei chyfer a'ch bod yn tanysgrifio eisoes i'r Gwasanaeth Diweddarau, y ffi gymeradwyo ar gyfer cais y flwyddyn gyntaf fydd £55 gan na fydd yn rhaid i chi dalu cost gwiriad gan y DBS. Rhaid i chi ddangos eich tystysgrif DBS wreiddiol i ni a rhoi caniatâd i ni gynnal ['gwiriad statws'](#) ar-lein i weld a oes unrhyw newidiadau ar eich tystysgrif. Pwysig: Os na fyddwch yn parhau i dalu eich ffi danysgrifio flynyddol i Wasanaeth Diweddarau'r DBS, bydd angen i chi wneud cais am wiriad newydd gan y DBS.

### **Beth os wyf wedi dychwelyd neu symud i'r DU yn ddiweddar?**

Bydd yr un meini prawf cymeradwyo yn gymwys o ran cymwysterau, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'r DBS. Mae'r Corff cymeradwyo yn dilyn canllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer cynnal gwiriadau'r DBS ar unigolion sydd newydd symud i'r DU neu sydd wedi dychwelyd i'r wlad yn ddiweddar.

### **Sut y gallaf wneud cais am gymeradwyaeth o dan Gynllun Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021?**

#### **Dylech gwblhau ffurflen gais a'i hanfon i un o'r cyfeiriadau canlynol:**

Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal  
Plant yn y Cartref  
Arolygiaeth Gofal Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT

Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal  
Plant yn y Cartref  
Arolygiaeth Gofal Cymru  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ

☎ 0300 790 0126

✉ [CIWRegistration@gov.wales](mailto:CIWRegistration@gov.wales)

Mae'r [Ffurflen gais](#) ar gael ar ein gwefan. Os byddwch yn cyflwyno eich cais drwy e-bost, sicrhewch eich bod yn atodi lluniau wedi'u sganio o'ch cymwysterau. Byddwn wedyn yn cysylltu â chi er mwyn cymryd eich taliad dros y ffôn ac os bydd angen i chi gael gwiriad manylach gan y DBS, gallwn ddechrau ar y broses gyda'n darparwr ar-lein, Vibrant Nation. Os byddwch yn cyflwyno eich cais drwy'r post, dylech gynnwys eich tystysgrifau cymwysterau er mwyn i ni asesu a ydych yn gymwys.

### **Rwy'n gweithio fel gofalwr plant yn Lloegr/yr Alban, a allaf wneud cais i gael fy nghymeradwyo?**

Dim ond yng Nghymru y mae Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 yn gymwys, er y gallwch wneud cais i fod yn ddarparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy os ydych yn byw yn Lloegr neu'r Alban a'ch bod yn gofalu am blant yng Nghymru. Mae gan [Loegr](#) a'r Alban drefniadau gwahanol ar gyfer cymeradwyo nanis.

### **Beth y gall rhywun ei wneud os gwrthodir ei gais am gymeradwyaeth?**

Gall y darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy ddilyn y broses sylwadau a gofyn i'r Corff cymeradwyo benodi penderfynwr i edrych ar ei gais. Ceir manylion llawn y broses sylwadau yn y [Canllawiau Cymeradwyo](#).

### **Pa fesurau fydd ar waith i ddiogelu darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy sy'n gweithio yng nghartref y rhiant os yw'r cartref hwnnw'n beryglus i'r plant neu'r darparwr gofal plant yn y cartref?**

Mater i'r darparwr gofal plant yn y cartref a rhieni fydd nodi unrhyw risgiau. Dylai darparwyr gofal plant yn y cartref cymeradwy ymgysylltu â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan](#) fel y maent yn ymwneud â phlant sy'n wynebu risg, egwyddorion diogelu a'r ddyletswydd i hysbysu ynghylch plentyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso a/neu ei niweidio.

### **Beth bydd y corff cymeradwyo yn ei wneud os caiff ei hysbysu bod darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy wedi niweidio plentyn?**

Bydd yn dweud wrth y sawl sy'n ffonio i hysbysu'r Awdurdod priodol ac yn nodi manylion y darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy a'i gyfeiriad ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol. Pan gaiff ei hysbysu bod awdurdod priodol yn ymchwilio i honiadau, caiff AGC dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad yw wedi gwneud unrhyw beth o'i le, gall y darparwr gofal plant yn y cartref gyflwyno cais newydd i gael ei gymeradwyo.

## **A fydd gofal plant a ddarperir gan ofalwr a gymeradwywyd gan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 yn gymwys i gael cyllid y Cynnig Gofal Plant?**

Na fydd, ni all gofalwr plant sy'n rhan o Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 ddarparu [lleoedd a ariennir gan Cynnig Gofal Plant Cymru](#).

### **Faint o amser y bydd y broses adnewyddu yn ei gymryd?**

Rydym yn cynghori darparwyr gofal plant yn y cartref i gyflwyno cais newydd am gymeradwyaeth o leiaf 42 diwrnod cyn i'w cymeradwyaeth ddod i ben. Er mwyn i rieni barhau i gael yr hawl i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys Gofal Plant Di-dreth, credydau treth, elfen gofal plant Credyd Cynhwysol neu gynlluniau talebau cyflogwyr, bydd angen i'w nani neu eu gofalwr barhau i fod yn gymeradwy neu'n gofrestredig. Bydd y rhai sy'n dilyn y cyngor hwn yn fwy tebygol o gael proses adnewyddu ddiraferth yn dechrau o'r dyddiad y daw eu hen gymeradwyaeth i ben. Bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth bob blwyddyn a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod eich hyfforddiant cymorth cyntaf a'u hyswariant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Fodd bynnag, os oes gennych dystysgrif gwiriad manylach gan y DBS ar gyfer yr [ardal weithlu](#) gywir a'ch bod eisoes yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddarau, ni fydd angen i chi gael gwiriad newydd gan y DBS bob tair blynedd hefyd.